



Beth sydd yn gwneud ein  
hysgol Eglwys yn arbennig?  
What makes our Church  
School special?

Rydym yn perthyn i deulu arbennig.



Rydym yn perthyn i deulu o'r enw

**'Teulu Asaph'** sy'n golygu ein bod yn Ysgol Eglwys ac yn rhan o esgobaeth Llanelwy. Y mae 51 Ysgol Eglwys yn perthyn i Deulu Asaph'

We belong to **'Teulu Asaph'**

**(The Family of Asaph)** which means that our Church School is a part of the Diocese of St Asaph. There are 51 schools in 'Teulu Asaph'.



Gwasanaethu



Cyfiawnder



Maddeuant

Ein Gwerthoedd



Cariad



Parchu



# Gwasanaethu

Wrth **Wasanaethu** rydym yn helpu eraill drwy gefnogi elusennau lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol. We **serve others** by supporting local, National and International charities.



# Cyfiawnder

Mae **Cyfiawnder** yn cael ei hyrwyddo wrth i ni wrando ar **Lais y Plentyn** a phwysleisio fod unrhyw fath o wahaniaethu yn gwbl annerbyniol.

**Justice** is shown by listening to the **Pupil's Voice** and emphasizing that any type of discrimination is unacceptable.

# Maddeuant



Wrth feddwl am **Faddeuant** byddwn yn annog y plant i '**Drin eraill fel yr hoffech gael eich trin eich hun.**'

When we think of **Forgiveness** we tell the children to '**Treat others as they would like to be treated.**'



# Cariad

Mae awyrgylch braf llawn **Cariad** yn yr Ysgol ac mae lles y plant a'r staff yn ganolog i bob dim.

The school is a very happy and **Loving** location and the welfare of all pupils and staff is our main focus.

# Parchu

Drwy roi pob math o brofiadau i'r disgyblion rydym yn hyrwyddo **Parch a gofal** am yr amgylchedd, at ein gilydd, at staff, ymwelwyr ac at adeilad ac offer yr ysgol.


Through different experiences we teach everyone to

**Respect** the environment, each other, staff, visitors and the school building and equipment.





# Gwasanaethau



**Mae Addoli ar y cyd yn bwysig ac mae rhaglen**

**benodol o Themâu wedi eu seilio ar ein Gwerthoedd wedi ei pharatoi ar gyfer y Gwasanaethau. Ceir cyfle i fyfyrion mewn tawelwch yn y Gwasanaethau.**

**Cynhelir Gwasanaethau Ysgol gyfan Ddydd Llun, Mercher a Gwener ac amser meddwl a thrafod yn y dosbarthiadau ar Ddydd Mawrth a Iau.**





**Worshiping together is of importance and we follow a special themed programme of Services based on our Values. We give the children the opportunity to reflect and think in silence at times.**

**The whole school Services are on Mondays, Wednesdays and Fridays and we have class reflection time on Tuesdays and Thursdays.**